



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfeydd Strwythurol a
Buddosoddi Ewropeaidd**
**European Structural
and Investment Funds**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru – Cronfa'r Môr A Physgodfeydd Ewrop 2014-2020

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol - Hysbysiad Preifatrwydd

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol: Hysbysiad Preifatrwydd

1.1 Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio sut y bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi ar Ffurflen Syniad Prosiect, Ffurflen Amlinellu'r Prosiect, Ffurflen Gais a dogfennau ategol, Ffurflen Hawliad a dogfennau ategol neu unrhyw ddogfen arall a ddefnyddir mewn cysylltiad â'ch cais am gymorth o dan Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) 2014 - 2020. Bydd yn esbonio hefyd sut y bydd Llywodraeth Cymru'n prosesu ac yn defnyddio'ch data personol a'ch hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

Rheolydd data'r wybodaeth a gyflwynir fel rhan o'ch cais yw **Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.**

Swyddog diogelu data'r un wybodaeth yw'r **Swyddog Diogelu Data, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**
E-bost: DataProtectionOfficer@gov.wales

1.2 Bydd Llywodraeth Cymru'n prosesu ac yn rheoli'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi iddi yn unol â'i hymrwymiaadau a'i dyletswyddau o dan y Rheoliadau Ewropeaidd canlynol:

- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 1303/2013
- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 1379/2013
- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 1380/2013
- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 508/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 717/2014
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 1242/2014
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 1243/2014 (diwygiwyd gan Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 2017/788)
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 821/2014
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 2015/288 (diwygiwyd gan Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 2015/2252)
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 2015/531
- Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn 2014/464/EU
- Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (UE) Rhif 679/2016

1.3 Bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio gan fwyaf i brosesu ac asesu ceisiadau a hawliadau am gymorth ariannol. Ond, caiff Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r wybodaeth hefyd at bwrpasau eraill, a fydd yn cynnwys archwilio, ymchwilio, atal a chanfod twyll a cwrdd â rhwymedigaethau statudol, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau a'i dyletswyddau o dan Bolisi Pysgodfeydd Cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, ei hymrwymiaid amgylcheddol statudol a'i hymrwymiaid statudol o dan deddfwriaeth morol.

1.4 Sail cyfreithlon y gwaith prosesu hwnnw yw bod ei angen er gwneud tasg a wneir wrth arfer yr awdurdod swyddogol a freinir yn Llywodraeth Cymru.

1.5 Bydd y data personol yn cael eu cadw mewn cronfa ddata ac yn cael eu prosesu gan Lywodraeth Cymru er mwyn ymdrin â cheisiadau a hawliadau am gymorth o'r EMFF, gan gynnwys drwy broses awtomataidd o reolau busnes yn system "Programme and Project Information Management System" (PPIMS) y Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Y Rhif Prosiect PPIMS yw y brif allwedd ar gyfer mwyafrif yr adroddiadau.

1.6 Caiff eich gwybodaeth ei storio yn unol â Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 821/2014, "System to record and store data".

2. Rhesymau dros rannu data personol

2.1 Mae deddfwriaeth yr UE yn nodi y bydd derbyn cymorth ariannol yn dibynnu, ymhlith pethau eraill, ar gyfarfod gofynion archwilio, trawsgydymffurfio, ac anghymhwysedd ceisiadau, fel y nodir yn Erthygl 10 o Reoliad y Cyngor (UE) Rhif 508/2014. Y sefydliadau a'r asiantaethau sy'n ymwneud â gorfodi'r cyfarwyddebau hyn ac y gall Llywodraeth Cymru rannu gwybodaeth gyda yw:

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- CEFAS
- Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol
- Awdurdodau Lleol
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru
- DEFRA
- Y Sefydliad Rheoli Morol
- Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau
- Uned Genedlaethol Troseddau Bywyd Gwyllt
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Y Comisiwn Ewropeaidd
- Llys Archwilwyr Ewrop

2.2 Gallai'r wybodaeth gael ei defnyddio at y dibenion canlynol:

- archwilio, trawsgydymffurfio a chroeswiro rhwng sefydliadau Llywodraethol i atal torri'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 508/2014 a deddwriaeth amgylcheddol a morol
- llunio adroddiadau o ddata o wahanol ffynonellau a/neu grynodedbau ystadegol, ar gyfer eu cyhoeddi
- llywio penderfyniadau sy'n gysylltiedig â newid polisi a chyllid gan gynnwys astudiaethau ymchwil a gynhelir ar ran Llywodraeth Cymru i'w helpu i Fonitro a Gwerthuso Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop
- diogelu budd ymgeiswyr mewn materion a all godi yn sgil ymholiadau ynghylch ariannu
- er mwyn i bartneriaid allu gwneud eu dyletswyddau cyfreithiol
- datgelu gwybodaeth i awdurdodau rheoleiddio, fel Tollau a Chyllid Ei Mawrhydi, Y Sefydliad Rheoli Morol, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, CEFAS, Awdurdodau Lleol a'r Heddlu
- cyhoeddi gwybodaeth benodol ac ymateb i geisiadau am wybodaeth. Am ragor o wybodaeth, gweler paragraffau 3.2-3.3 yn yr Hysbysiad hwn.

2.3 Gellir trosglwyddo data hefyd i gontractwyr cymorth Llywodraeth Cymru er mwyn datrys problemau gyda systemau. Ni chaniateir i'r contractwyr hyn wneud unrhyw ddefnydd arall o'r data hyn.

3. Cyhoeddi gwybodaeth ac ymateb i geisiadau am wybodaeth

3.1 Caiff yr wybodaeth ei rheoli a'i defnyddio gan Lywodraeth Cymru yn unol â'i hymrwymiaadau a'i dyletswyddau o dan:

- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddfwriaeth Diogelu Data
- Rheolaidau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
- Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (UE) Rhif 679/2016

3.2 Gall aelod o'r cyhoedd ofyn am gael gweld eich gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ryddhau gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch, wrth ymateb i gais o'r fath.

3.3 Yn unol â Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1303/2013, a Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 508/2014, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi, o leiaf bob chwe mis, fanylion am y buddiolwyr sy'n derbyn taliadau EMFF. Y manylion a gyhoeddir fydd:

- Enw cyntaf a chyfenw'r buddiolwr neu enw'r cwmni, y bartneriaeth neu'r sefydliad sydd yn fuddiolwr;
- Rhif adnabod Cofrestr fflyd y Gymuned (pan fo'r prosiect yn gysylltiedig â chwch neu long bysgota);
- Enw'r prosiect a chrynodeb o'r prosiect;
- Dyddiad dechrau a chwblhau'r prosiect;
- Cyfanswm y gwariant cymwys a'r cyfraniad gan yr EMFF;

Rhif y Fersiwn: 1

Dyddiad Cyhoeddi: Mai 2018

Cyhoeddwyd gan: Lywodraeth Cymru 4

- Cod Post y prosiect a'r wlad y cynhelir y prosiect;
- Enw Blaenoriaeth yr Undeb
- Dyddiad y diweddariad olaf i'r rhestr o brosiectau

Cyhoeddir yr wybodaeth hon ar <http://gov.wales/?skip=1&lang=cy>.

4. Hawliau o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

4.1 Mae'r GDPR yn rhoi hawliau i unigolion o ran y data personol a ddelir amdanyh nhw. Mae'r hawliau hynny'n cynnwys:

- yr hawl i gael gwybod (yr hysbysiad hwn)
- yr hawl i ofyn a chael copïau o'r data personol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanynt, er y gall Llywodraeth Cymru wrthod gwneud hynny weithiau
- yr hawl o dan rai amgylchiadau i atal neu ffrwyno gwaith prosesu data personol Llywodraeth Cymru
- yr hawl, mewn amgylchiadau penodol, i ofyn am gywiro gwybodaeth anghywir
- yr hawl o dan rai amgylchiadau i gael data wedi'u dileu (neu eu hanghofio).

Os hoffech ymarfer unrhyw un o'ch hawliau o dan y GDPR, dylech gysylltu â Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad a roddir ar ddechrau'r hysbysiad hwn.

4.2 Bydd hawl gan unigolion hefyd i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn cadw golwg ar y GDPR, farnu a fyddwn, wrth brosesu'ch gwybodaeth bersonol, yn debygol o gadw at amodau'r GDPR. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, 2il Lawr, Churchill House, Churchill Way, Caerdydd, CF10 2HH, Ffôn: 029 2067 8400, Ffacs: 029 2067 8399, E-bost: wales@ico.org.uk